# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD, 04.06.13

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Lesley Day (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Thomas G. Ellis, Jean Forsyth, Evan Selwyn Griffiths, Charles W. Jones, Linda Ann Wyn Jones, Sion Wyn Jones, Dilwyn Morgan, Michael Sol Owen, Gareth Thomas, Mandy Williams-Davies.

**Swyddogion:** Geraint George, (Pennaeth Strategol a Gwella), Gwenan Parry (Pennaeth Gofal Cwsmer), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd),
ac Ioan Hughes (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Annwen Davies, Ioan Thomas, (Aelod Cabinet – Gofal Cwsmer)

## 1. CADEIRYDD

**Penderfynwyd: Cadarnhau penderfyniad y Cyngor ar 2 Mai 2013 i ethol y Cynghorydd Lesley Day yn Gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2013/14/.**

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd Anne Lloyd Jones yn Is-gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2013/14.**

## 3. CROESO

Estynnwyd croeso i'r Cynghorydd Jean Forsyth a oedd yn mynychu cyfarfod o'r Pwyllgor hwn am y tro cyntaf.

## 4. LLONGYFARCHIADAU

Cadarnhawyd bod Debbie Anne Williams Jones wedi ei phenodi'n Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd dros dro. Llongyfarchwyd y swyddog a dymunwyd yn dda i Vera Jones a fydd yn absennol dros gyfnod mamolaeth.

## 5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2013, fel rhai cywir.

## 5. MATERION YN CODI O'R COFNODION

a) Mewn ymateb i ymholiad, esboniwyd fod y term 'information portal' yn cyfeirio at y gwaith a wnaed tuag at gael lle ar y we ar gyfer cadw gwybodaeth i'r aelodau etholedig hefo'i gilydd.
Ychwanegwyd mai dyma'r hyn a olygwyd gyda 'phorth gwybodaeth', ac er nad yw'r dechnoleg gyfredol yn cyd-fynd ag anghenion y Cyngor, nodwyd bod gwaith ymchwil pellach yn cael ei wneud tuag at gyrraedd yr uchelgais yma.
Nodwyd bod datblygiadau'r 'bwletin aelodau' yn cyfarch hyn dros dro.

Ymhellach, nodwyd bod y term 'exchange' yn ymdrin yn bennaf ag uwchraddio'r system e-bost.

b) Nododd aelod nad oedd wedi derbyn gwybodaeth ynglŷn â'r rhan helaethaf o'r 13 sesiwn o hyfforddiant mewn perthynas â gwybodaeth electroneg i aelodau. Ychwanegodd ei bod yn ymwybodol fod un wedi ei gynnal ar 24 Ebrill ond nad oedd hwn yn addas ar ei chyfer gan nad oedd yn cael ei gynnal yn ddwyieithog.

Mewn ymateb, nodwyd bod y nifer sesiynau'n cynnwys sesiynau cyflwyno'r i-pad am y tro cyntaf. Yn ddiweddarach 'roedd sesiynau'n cael eu trefnu, yn ôl y galw, i ymdrin â materion penodol. Gwnaed cais pellach i gynnal sesiwn ychwanegol yn ne'r Sir yn ogystal â sesiwn hyfforddiant yn Saesneg a bwriedir trefnu dyddiadau ar eu cyfer yn y dyfodol agos.

## 6 GWE DDARLLEDU A MYNYCHU CYFARFODYDD O BELL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gofal Cwsmer a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn amlinellu gwybodaeth ddiweddaraf ynghylch gofynion gwe ddarlledu, mynychu cyfarfodydd o bell a'r datblygiadau ynglŷn â'r grant i Gynghorau Cymuned.

Ymhelaethodd ar y gwaith a wnaed hyd yma, gan nodi mai'r risg oedd bod Llywodraeth Cymru'n darparu grant ar gyfer cychwyn cynllun gwe ddarlledu a mynychu cyfarfodydd o bell, ond byddai'n ofynnol i'r Cyngor ddarganfod unrhyw gostau ar gyfer parhau gyda'r cynllun. Nodwyd bod gwaith ymchwil yn cael ei wneud ar hyn o bryd i'r isafswm a ellid ei wneud heb gost refeniw.

Cyfanswm y grant oedd £72,000, ac o dderbyn yr arian byddai'r Cyngor yn ymrwymo i:-

- Ddarlledu yr oll/neu rai o gyfarfodydd y Cyngor;
- Darparu peth o'r cyllid, sef cyfanswm o £32,000, i gynghorau cymuned i'w cefnogi i ddarparu eu gwefannau eu hunain;
- Trefnu i aelodau ymuno â chyfarfodydd o bell.

Mewn ymateb i sylwadau a wnaed gan yr aelodau amlygwyd y prif bwyntiau canlynol gan swyddogion:-

- Na fu'r camerâu a fu yn siambr y Cyngor, cyn ei hadnewyddu, yn gweithio ers nifer o flynyddoedd;
- Fod y mater o ddyrannu grant i'r cynghorau cymuned gwbl ar wahân i'r gwaith o ddarlledu cyfarfodydd y Cyngor;
- Mai 'hyd at' £500 o grant fyddai'n cael ei ryddhau i gynghorau cymuned unigol;
- Bod angen ystyried meini prawf ac edrych i mewn i sawl peth o safbwynt cynghorau cymuned sydd eisoes wedi wynebu'r costau wrth gwblhau neu ddechrau darparu gwefannau;
- Na fyddai'n rhesymol i Gyngor Gwynedd dderbyn llwyth gwaith ychwanegol o ran cadw gwefannau'r cynghorau cymuned yn gyfredol;
- Bod cadw gwefan pob cyngor cymuned yn gyfredol yn un o'r amodau o ran derbyn y grant;
- Na fyddai gwe-ddarlledu'n galw am greu swydd ychwanegol.

Mynegwyd pryder gan aelod oedd o'r farn mai prin fyddai'r manteision o weithredu yn unol â'r amodau er mwyn derbyn y grant, ac y byddai'n rhaid i gynghorau cymuned roi pwysau pellach ar y trethdalwyr er mwyn cwblhau'r gwaith angenrheidiol.

Mewn ymateb, esboniwyd mai bwriad Llywodraeth Cymru oedd hybu'r gwaith o roi gwybodaeth i drigolion ynglŷn â'r hyn mae cynghorau cymuned yn ei wneud.

**Penderfynwyd: (a) Cymeradwyo i:**

**(i) symud ymlaen gyda darpariaeth gwe-ddarlledu o Siambr Dafydd Orwig a Siambr Hywel Dda ac, yn amodol ar faint y costau, i wneud darpariaeth ar gyfer unrhyw ofynion sefydlu a chynnal y tu hwnt i'r arian grant allan o'r gyllideb Costau Democratiaeth.**

**(ii) Beidio â gwneud darpariaeth cyfieithu ar gyfer gwe-ddarlledu y tu hwnt i drefniadau cyfieithu ar y pryd presennol y Cyngor yn yr ystafelloedd cyfarfod eu hunain**

**(iii) Symud ymlaen gyda darpariaeth ymuno â chyfarfodydd o bell yn amodol ar gymalau 7(a) a 7 (b) yn yr adroddiad**

**(iv) Barhau i gefnogi'r gwaith o hwyluso datblygu gwefannau i Gynghorau Cymuned.**

Yn dilyn y drafodaeth, adroddwyd fod y swyddogion newydd dderbyn dogfen ymgynghorol, ynglŷn â mynychu cyfarfodydd cyngor o bell.
Esboniwyd y byddai'r aelodau'n derbyn copi o'r canllawiau drafft ac awgrymwyd y gallent gyflwyno sylwadau, drwy'r Cadeirydd. Yna byddai'n bosib eu trosglwyddo i'r Aelod Cabinet, Gofal Cwsmer, fyddai'n ymateb, ar ran y Cyngor i'r canllawiau drafft.

Yn y cyfamser, gellid cymryd y camau cychwynnol yn unol â'r penderfyniadau uchod.

Pwysleisiwyd bod risgiau'n bodoli a bod rhaid asesu'r canllawiau fel y gellir ymdopi â'r drefn yn weddol ddiogel.
Nodwyd y gallai'r cymhlethdodau fod yn gysylltiedig â diffygion technoleg allai ddigwydd ar unrhyw adeg; cworwm, presenoldeb cyhoedd ac eitemau eithriedig, y galw am nifer o gyfieithwyr a maint 'stafelloedd.

**PENDERFYNWYD y dylai'r aelodau astudio'r canllawiau drafft a chyflwyno sylwadau i'r Cadeirydd fel y gellir eu trosglwyddo i'r Aelod Cabinet Gofal Cwsmer.**

## 6. ADRODDIADAU BLYNYDDOL GAN AELODAU ETHOLEDIG

Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn â datblygiadau gydag adroddiadau aelodau ar gyfer 2012/13.

Nodwyd bod 10 aelod wedi datgan diddordeb mewn darparu adroddiad ac mai 2 adroddiad a dderbyniwyd hyd yma. Galwyd ar i'r aelodau leisio barn ynglŷn â'r mater a thynnu sylw at unrhyw broblemau a ddaeth i'r amlwg a sut y gellir sicrhau gwelliant yn y dyfodol.

Nododd aelod na fu hysbysebu effeithiol ynglŷn â'r adroddiadau ac yn sgil hyn bod yr amserlen yn hynod gaeth erbyn hyn.
Yn ogystal, credai bod canllawiau caeth wedi eu gosod, a bod ffiniau pendant ynglŷn â'r hyn ellir ei gynnwys yn yr adroddiad wedi gwneud i rai feddwl nad oedd gwerth mewn darparu adroddiad.

Mewn ymateb, nodwyd mai Llywodraeth Cymru a osododd y canllawiau ac mai'r bwriad oedd creu cyfle pellach ar gyfer cyfathrebu hefo'r etholwyr. Ychwanegwyd bod y canllawiau wedi eu haddasu, ac yn ôl y rhai diwygiedig, gellir cyflwyno adroddiadau ar unrhyw adeg, ond fod y Cyngor yn glynnu at ddiwedd Mehefin ar gyfer peilor 2012/13 gan y byddai amseriad yr adroddiadau yn colli eu gwerth fel arall.

Bwriad y Cyngor oedd glynu at ddiwedd Mai fel dyddiad terfynol oherwydd mai cynllun peilot oedd hwn.
.
Er yn derbyn bod sefyllfa pob aelod yn wahanol, nododd aelod arall fod y canllawiau'n hynod heriol a bod yr angen i gyfyngu'r adroddiad i 2 dudalen yn tanlinellu hyn.

Gwrthwynebwyd y syniad o ddarparu adroddiad gan aelod oedd o'r farn na ddylai cynghorwyr orfod ysgrifennu ynglŷn â'r gwaith maent yn wneud o fewn eu cymuned.

Esboniodd swyddogion nad oes rheidrwydd ar i'r aelodau ddarparu adroddiad,
ac y bydd yn fanteisiol pan ellir gweld adroddiadau gaiff eu cyflwyno. Cadarnhawyd y caiff yr adroddiadau a dderbynnir eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

**Penderfynwyd: a) Derbyn yr adroddiad a bod yr adroddiadau a gyflwynir gan aelodau'n cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor,**
**b) Bod esboniad yn cael ei roi ar wefan y Cyngor mai cynllun peilot ydy hwn.**

**7. MESUR LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2011 – HYFFORDDIANT AELODAU**

Cyflwynwyd adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn amlinellu gofynion y mesur uchod er mwyn penderfynu'r ffordd ymlaen.

Nodwyd mai'r bwriad oedd ystyried y ffordd orau o ddarparu ar gyfer anghenion yr holl aelodau, ac eithrio aelodau'r Cabinet, i'w galluogi i dderbyn adolygiad o'u hanghenion hyfforddiant a datblygu, pe baent yn dymuno hynny.

Mewn ymateb, gwnaed y prif sylwadau canlynol gan aelodau:-

- Bod Fforymau Ardal yn creu'r cyfle gorau i'r holl aelodau dderbyn gwybodaeth ac i leisio barn;
- Bod angen ystyried y sgiliau sydd ei angen fel cynghorwyr yn ogystal â'r sgiliau fyddent yn dymuno ei gael;

Mewn ymateb i ymholiad, nodwyd bod yr ymateb i amrywiol gyrsiau yn amrywio.

**Penderfynwyd: (a) Gofyn i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ysgrifennu at bob aelod etholedig (namyn Aelodau'r Cabinet) a chyflwyno'n gryno yn y Fforymau Ardal cyntaf gan esbonio gofynion Mesur Llywodraeth Leol yng nghyd-destun Cynlluniau Datblygu Personol, gan ofyn iddynt ddatgan diddordeb mewn derbyn adolygiad blynyddol neu beidio**

**(b) Addasu'r egwyddorion a'r canllawiau a ddatblygwyd ar gyfer blaenoriaethu caniatáu i Aelodau fynychu seminarau allanol a.y.b. a'u gwneud yn berthnasol ar gyfer cyrsiau hyfforddiant hefyd a'u mabwysiadau fel rhan o'r uchod.**

**8. SIARTER HYFFORDDIANT AELODAU**

Cyflwynwyd adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cyflwyno gwybodaeth am y Siarter Datblygu Aelodau er mwyn penderfynu'r ffordd ymlaen.

'Roedd aelodau a swyddogion o'r farn fod y Cyngor eisoes yn cwrdd â nifer o ofynion y Siarter, a nodwyd bod y syniad i'w groesawu fel dull o gael statws i hyfforddiant yr aelodau etholedig.

Yn ogystal, nodwyd bod lle i ddatblygu, a bod y Siarter yn creu cyfle ar gyfer hynny.

**Penderfynwyd: Cymeradwyo i ddatgan diddordeb mewn ymgeisio am y Freinlen (Siarter) yn ystod 2013/14 a chyfleu'r argymhelliad hwn i'r Cyngor llawn nesaf ar 19 Medi 2013.**

## 9. BWLETIN AELODAU ETHOLEDIG

Adroddodd y Pennaeth Gofal Cwsmer fod y 'Bwletin Aelodau' wedi ei lansio ers rhai wythnosau a galwodd am adborth cychwynnol gan yr aelodau.

Tynnwyd sylw at y prif bwyntiau canlynol:-

- Bod y bwletin yn fuddiol i aelodau ond bod angen cadw'r wybodaeth arno yn gryno;
- Na ddylai unrhyw ddarn o wybodaeth fod ar y 'bwletin' am gyfnod rhy hir;
- Gallai fod yn fuddiol i'r aelodau derbyn hyfforddiant addas;
- Bod y bwletin yn dalfyriad o'r hyn sy'n digwydd, a bod modd cael gwybodaeth bellach ar wefan benodol;
- Bod yr Adran Briffyrdd i'w gweld yn gwneud defnydd llawn o'r bwletin ac efallai bod angen annog adrannau eraill i wneud yr un modd.

Cytunwyd bod angen llenwi bylchau cyn y gellir cael system gwbl effeithiol a nodwyd bod gan yr aelodau ran amlwg yn y gwaith o sicrhau datblygiad cyson.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.25am